technocamps

Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl

@Technocamps www.technocamps.com Find us on Facebook

LEGO Bowling

Mae LEGO Mindstorms NXT yn becyn roboteg rhaglenadwy, sy'n ein galluogi i greu robotiaid amrywiol gan ddefnyddio ein sgiliau adeiladu ac yn bwysicach, ein sgiliau rhaglennu. Yn ystod y gweithdy hwn bydd y grwpiau'n cael eu cyflwyno i'r pecynnau NXT er mwyn creu robot bowlio. Bydd y grwpiau'n creu robot a fydd yn rasio ymlaen nes iddo adnabod y lliw ar y pinnau/ar y llawr sy'n nodi lle mae'r pinnau, ac wedyn yn stopio. Pan fyddant wedi cyflawni hyn dylai'r robot symud yn ôl nes iddo adnabod y llinell werdd ar ddechrau'r lôn fowlio. Cyflawnir hyn mewn grwpiau, gan gydweithio i gyflawni'r nod a gwella'u sgiliau gweithio mewn tîm yn sgil hynny. Y robot sy'n bwrw'r mwyaf o binnau yn ystod y gêm sy'n ennill!

Sgiliau

- Datrys Problemau
- Cyfathrebu
- Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun
- Gweithio gydag Eraill
- TGCh
- Rhifedd
- Creadigrwydd

Deilliannau Dysgu Allweddol

- Gallu adeiladu Robot LEGO Mindstorm yn llwyddiannus.
- Meddu ar sgiliau rhaglennu Robot LEGO Mindstorm.
- Deall ac adnabod adeiladweithiau rhaglennu sylfaenol.
- Gweithio fel grŵp i gyflawni'r dasg a amlinellwyd.

Amlinelliad y Gweithdy

- Adeiladu a rhaglennu'r robot LEGO Mindstorm i ddatrys y dasg benodedig.

Pam Technocamps?

Mae Technocamps yn brosiect cyffrous sy'n darparu gweithdai am ddim i bobl ifanc ar raglennu, roboteg, dylunio gemau, datblygu apps a llawer rhagor... Ei fwriad yw cael pobl ifanc (11-19 oed) yng Nghymru i ymddiddori mewn Cyfrifiadureg a phynciau STEM a'u herio i feddwl am y byd o'u cwmpas mewn modd gwahanol.

i.t.wales www.itwales.com
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Bangor University
University of South Wales Prifysgol De Cymru
ESF Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future European Social Fund